

Polisi Trafnidiaeth Cymorthedig

Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion

1 Beth yw Trafnidiaeth Cymorthedig Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion?

Gwasanaeth trafndiaeth a ddarperir i bobl dros 18 oed yw Trafnidiaeth Cymorthedig Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, er mwyn iddynt gael mynediad at 'weithgareddau cymunedol' ym mwrdeistref Caerffili. Gweithgaredd cymunedol yw gwasanaeth gofal a chymorth y mae unigolyn yn mynd iddo, i ffwrdd o'u cartrefi, a ddarperir gan Wasanaethau Cymdeithasol i Oedolion fel rhan o gynllun gofal a chymorth.

Yn gyffredinol, ni all y bobl hyn ddefnyddio cludiant cyhoeddus yn annibynnol oherwydd anabledd neu broblemau iechyd ac nid oes ganddynt fynediad rhesymol i gludiant preifat. Gellir ei ddarparu trwy dacsis a bysiau mini naill ai trwy ddarpariaeth uniongyrchol oddi wrth y Cyngor, neu a darpariaeth gan y Cyngor trwy gontractau trafndiaeth.

2 Fframwaith Polisi

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yw'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn nodi canlyniadau unigolyn ac asesu eu hangen am wasanaethau gofal a chymorth. Bydd gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd i gwrdd â'r angen hwnnw os na ellir ateb yr angen drwy adnoddau'r unigolyn ei hun neu adnoddau cymunedol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn amlinellu egwyddorion a ffyrdd o weithio sy'n cynnwys y cyfrifoldeb am sicrhau datblygiadau cynaliadwy i unigolion gysylltu â'u cymunedau lleol ac anghenion presennol i gael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain. Mae hyn yn cysylltu'n uniongyrchol â'r egwyddorion llesiant sy'n sail i'r polisi hwn.

3 Egwyddorion y Polisi

Nod y polisi hwn yw adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol ac mae'n seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- Hybu annibyniaeth
- Mwyhau dewis a rheolaeth
- Yn adeiladu ar gryfderau rhwydwaith y person ei hun
- Cefnogi ffordd o fyw iach
- Gwellu ansawdd bywyd
- Mwyhau urddas a pharch
- Datblygu rhwydweithiau lleol a chymunedol.

Prif egwyddor y polisi hwn yw bod y penderfyniad i ddarparu trafndiaeth yn seiliedig ar anghenion, canlyniadau ac ar hyrwyddo annibyniaeth, fel rhan o ymrwymiad y Cyngor i gynhwysiant ac annibyniaeth.

4 Datganiad Polisi

Mae'r polisi hwn yn amlinellu sut y byddwn yn sicrhau bod gennym ffordd gyson a theg o gefnogi unigolion wrth ddarparu Trafnidiaeth Cymorthedig Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion.

Mae'r polisi hwn yn pennu'r meini prawf a ddefnyddir i asesu sut mae pobl yn cael mynediad at drafnidiaeth i wasanaethau a nodwyd mewn cynllun gofal a chymorth a'u darparu gan Wasanaethau Cymdeithasol i Oedolion. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymrwymedig i hybu annibyniaeth ar draws pob maes darpariaeth gwasanaeth ac mae'n ceisio sicrhau bod pobl yn byw mor annibynnol â phosibl o fewn eu cymunedau eu hunain, ac yn parhau i gael mynediad at wasanaethau a chymorth mewn ffyrdd sy'n cwrdd â'u hanghenion.

Gan nad yw'r angen am drafnidiaeth yn angen cymwys ynddo'i hun, dim ond yn ddull o gael mynediad at wasanaethau, mae'r polisi hwn yn deillio o ragdybiaeth a disgwyliad cyffredinol y bydd cleientiaid yn cwrdd â'u hanghenion eu hunain ar gyfer trafnidiaeth i gael mynediad at wasanaethau.

Caiff trafnidiaeth a ariennir ond ei darparu os, ym marn yr aseswr, ***mai dyma'r unig ffordd resymol o alluogi'r person i gael mynediad diogel i wasanaeth cymwys***. Lle mae trafnidiaeth briodol ar gael, tybir y bydd yr unigolyn yn defnyddio hyn fel yr opsiwn cyntaf.

Bydd Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion yn cyfeirio unigolion at opsiynau trafnidiaeth priodol er mwyn hyrwyddo annibyniaeth y person hwnnw.

5 Asesiad ar gyfer Trafnidiaeth Cymorthedig i Wasanaeth Gofal a Chymorth

Dim ond pan fydd y person yn gymwys am wasanaeth cymunedol a ddarperir gan Wasanaethau Cymdeithasol i Oedolion caiff trafnidiaeth cymorthedig ei hystyried. Rhaid i'r asesiad fod yn rhan o'r asesiad o ganlyniadau ac anghenion y person, a bydd yn cael ei ystyried mewn unrhyw adolygiad(au) gofal a chynllun cymorth dilynol.

Wrth gwblhau'r asesiad hwn, rhoddir pwyslais ar gryfderau a galluoedd y person, gan ganolbwyntio ar atebion sy'n eu galluogi i wneud pethau drostyn nhw eu hunain yn hytrach na dod yn ddibynnol. Nod yr asesiad yw sefydlu a yw'n ddiogel ac yn rhesymol i ddisgwyl i'r person, neu eu cynrychiolydd, i wneud trefniadau trafnidiaeth. Fel rhan o'r asesiad, bydd pob opsiwn trafnidiaeth yn cael eu harchwilio a bydd y canlyniadau'n cael eu nodi a'u profi.

Dylid nodi'n glir yr angen am, a phwrrpas y drafnidiaeth, ar Gynllun Gofal a Chymorth yr unigolyn. Dylid ystyried darpariaeth a chyllido trafnidiaeth cymorthedig dim ond os yw adnoddau'r defnyddiwr gwasanaeth a'r holl opsiynau eraill wedi'u disbyddu.

Wrth asesu cymhwysedd ar gyfer trafnidiaeth a dichonolrwydd gwahanol ffyrdd o gael mynediad at wasanaethau, bydd y ffactorau canlynol yn cael eu hystyried:

- Mynediad at drafnidiaeth bresennol;
- Mynediad at lwfans symudedd neu arian amgen;
- Asesiad o symudedd;

- Asesiad o'r gallu i deithio'n annibynnol;
- Nodi darpariaeth drafnidiaeth briodol ar gyfer y rhai sy'n gymwys;
- Efallai bod gan bobl y dulliau ariannol i ariannu eu trefniadau teithio eu hunain.
- Canlyniad cyfnod o hyfforddiant teithio

Yn dilyn asesiad, caiff trafndiaeth ei darparu dim ond er mwyn helpu cwrdd ag angen a asesir na all y person eu hunain fodloni, ar ôl archwilio pob dewis arall. Bydd y drafnidiaeth a ddarperir yn briodol ar gyfer yr angen hwnnw, yn darparu gwerth am arian ac yn gost-effeithiol.

6 Fel arfer ni fydd pobl yn gymwys i gael trafndiaeth dan yr amgylchiadau canlynol:

- Mae ganddynt y gallu corfforol a/neu feddyliol i deithio i weithgaredd cymunedol, naill ai'n annibynnol neu â chymorth teulu, ffrindiau neu ddarparwyr cymorth.
- Maent yn gymwys i gael elfen symudedd Lwfans Byw i'r Anabl/Taliad Annibyniaeth Personol ac yn eu derbyn
- Mae ganddynt gerbyd eu hunain, mynediad i gerbyd teulu neu gerbyd Motability y maent yn eu gyrru eu hunain.
- Mae ganddynt gerbyd symudedd nad ydynt fel arfer yn gyrru eu hunain.
- Lle bod gan unigolyn fynediad i gar teulu/aelwyd, ystyrir a yw'n rhesymol i ddisgwyl i rwydwaith teulu a ffrindiau'r unigolyn eu helpu i deithio i leoliad y gwasanaeth gofal/gweithgareddau.
- Maent yn derbyn elfen Symudedd Lwfans Byw i'r Anabl, sydd yno i gynorthwyo'r rhai sydd â phroblemau symudedd, gydag anhawster cerdded difrifol neu sydd angen help i fynd o gwmpas yn yr awyr agored ac yn y gymuned. Bydd y bobl hyn yn gymwys i gael trafndiaeth dim ond os cânt eu hasesu fel yn methu â theithio'n annibynnol neu os nad yw elfen symudedd y budd-daliadau yn cwmpasu eu hanghenion yn llawn (oherwydd pellter o wasanaethau, natur yr anabledd, math o gadair olwyn, gofynion cefnogaeth gofalyddion ac ati). Fel rhan o'r asesiad ariannol llawn, bydd swyddogion Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili hefyd yn helpu pobl i wneud y mwyaf o'u mynediad at unrhyw fudd-daliadau y gallent fod â hawl iddynt.
- Maent yn byw mewn cartref gofal cofrestredig gan fod y rhain yn ddarostyngedig i delerau ac amodau'r contract rhwng y Cyngor a'r cartref gofal. Fodd bynnag, os asesir bod gan yr unigolyn y gallu i deithio'n annibynnol, neu gydag ond ychydig o ymyrraeth, bydd y cartref gofal yn gwneud darpariaeth i gefnogi teithio annibynnol os ydynt yn gyfrifol am y trefniadau trafndiaeth.
- Maent yn byw mewn lleoliadau lle mae eu hanghenion gofal yn cael eu hariannu gan Wasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, e.e. Cynlluniau Gofal Preswyl, cynlluniau byw â chymorth (megis y rheini ar gyfer pobl ag anabledd dysgu neu oedolion iau ag

anhwylderau iechyd y meddwl) neu leoliad bywydau a rennir, gan fod angen i'r lleoliad lleol gynnwys yr ystod lawn o anghenion cymorth, gan gynnwys trafndiaeth i fynychu gweithgareddau cymunedol.

- Os yw'r unigolyn yn dibynnu ar berthynas neu ofalydd arall i yrru car symudedd, rhaid rhoi ystyriaeth i gefnogi anghenion seibiant y gofalyddion. Serch hynny, os yw unigolyn neu ofalydd yn gwneud y penderfyniad na fydd y car yn cael ei ddefnyddio at y pwrpas a fwriadwyd, rhaid i'r person a/neu'r gofalydd wneud trefniadau priodol eraill. Rhaid i swyddogion asesu hefyd sicrhau nad yw amharodrwydd neu analluedd i gynorthwyo gyda thrafnidiaeth yn atal unigolyn rhag cael mynediad at wasanaeth sy'n bodloni eu hanghenion a asesir a bydd angen i'r unigolyn/gofalydd wneud trefniadau amgen.
- Lle mae gwrthdaro rhwng yr unigolyn a'r gofalydd, ynghylch ceir Motability, efallai y bydd angen i swyddogion ystyried materion diogelu. Bydd angen i'r gweithiwr ystyried trafod gyda'r unigolyn y posibilrwydd o ddychwelyd yn ôl i lwfans ariannol, os yw'r unigolyn yn dymuno hynny. Byddai hyn yn hyrwyddo annibyniaeth ac yn caniatáu i'r unigolyn gymryd rheolaeth o'u gofynion trafndiaeth eu hunain. Rhoddir ystyriaeth i effaith yr opsiwn hwn ar berthnasoddd gofalyddion unigol a'r angen i osgoi creu gwrthdaro dianghenraid.

Os caiff ei nodi yn ystod y broses asesu y gall y person deithio i weithgaredd cymunedol sy'n cwrdd â'u hanghenion, naill ai'n annibynol neu gyda chymorth teulu, ffrindiau neu ddarparwyr cymorth, ni fydd yr Awdurdod Lleol yn darparu trafndiaeth, nac yn talu am gostau teithio. Fodd bynnag, nid yw hyn yn atal pobl rhag defnyddio eu hadnoddau ariannol eu hunain i dalu am drafndiaeth pe baent yn dewis gwneud hynny.

Disgwylir i bobl sy'n gymwys ar gyfer teithio consesiynol (h.y. pas bws), ymgeisio am, a defnyddio'r rhain fel y bo'n briodol. Lle byddai mynediad i bas bws cydymaith yn galluogi'r person i deithio trwy gludiant cyhoeddus, bydd hyn yn cael ei ystyried ar gyfer y gofalydd/cydymaith. Bydd cyfyngiadau teithio consesiynol hefyd yn cael eu hystyried yn ystod yr asesiad.

7 Cwynion / Apeliadau

Os yw unigolyn neu eu gofalydd yn anhapus â chanlyniad yr asesiad o'u hanghenion trafndiaeth, mae ganddynt yr opsiwn i ofyn i'r Cyngor ailystyried y ffordd y cafodd y cais ei asesu.

<http://www.caerphilly.gov.uk/My-Council/Complaints-and-feedback/Adult-services-complaints?lang=cy-gb>

8 Gwrthod Gwasanaethau

Os aseswyd bod unigolyn yn gallu gwneud eu trefniadau trafndiaeth eu hunain ond yn gwrthod gwneud hynny, ac o ganlyniad yn methu â mynychu'r gwasanaeth y mae ganddynt angen cymwys ar ei gyfer, bydd hyn yn cael ei ystyried fel bod y person yn gwrthod gwasanaethau.

9 Mynediad at Drafnidiaeth am wasanaethau na ddarperir gan Wasanaethau Cymdeithasol i Oedolion:

Mae'r Codau Ymarfer ar gyfer Cymhwyster yn Neddf Gwasanaeth Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014, Rhan 4.1 yn nodi: *"Nid diben y meini prawf cymhwyster yw tynnu gwasanaethau gofal a chymorth yr awdurdod lleol i mewn i heriau na allant fynd i'r afael â hwy (fel darpariaeth gofal iechyd, cyflogaeth, neu addysg)." Felly:*

Pan fo gofyniad am fynediad at drafnidiaeth gofal iechyd, gall unigolyn ofyn am asesiad gan y GIG trwy eu meddyg teulu am wasanaethau trafnidiaeth i'r ysbyty neu'r adran cleifion allanol y mae'n ofynnol iddynt fynychu.

Pan fo gofyniad am fynediad i gludiant i gyflogaeth, gall unigolyn ofyn am asesiad gan wasanaeth cyflogaeth fel y Ganolfan Byd Gwaith neu Fynediad i Waith.

Lle mae gofyniad am fynediad i gludiant ar gyfer coleg neu addysg. Nid yw addysg yn ddarpariaeth o wasanaeth dan gynllun gofal a chymorth gan Wasanaethau Cymdeithasol i Oedolion ac felly mae asesiad ar gyfer y fath ofyniad yn dod o dan y polisi Addysg a thrafnidiaeth ynghylch trafnidiaeth ôl-16 i leoliadau addysgol wedi'i amlinellu mewn polisi ar wahân:

<http://www.caerffili.gov.uk/Services/Schools-and-learning/School-travel?lang=cy-gb>

10 Dulliau Trafnidiaeth Amgen yn y Fwrdeistref

Mae yna nifer o gynlluniau trafnidiaeth gymunedol ar draws y sir, yn bennaf yn cwmpasu ardaloedd â chysylltiadau trafnidiaeth llai dibynadwy ond heb eu cyfyngu i'r ardaloedd hyn.

Mae'r Cyngor yn sicrhau, trwy ei gefnogaeth i'r sector gwirfoddol a chymunedol, bod cynlluniau o'r fath yn parhau i fod yn gynaliadwy ac yn gwasanaethu'r angen mwyaf mewn ardal.

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Gynllun Trafnidiaeth Lleol cadarn hefyd, sy'n amlinellu'r opsiynau cyfredol ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus a datblygiadau arfaethedig yn y dyfodol, caiff hyn ei ddiweddarau yn ôl yr angen.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn gweithredu'r Cynllun Teithio Consesiynol, mae'r cynllun hwn yn darparu teithio bws am ddim bob amser, bob dydd ar y rhan fwyaf o wasanaethau bysiau lleol ar gyfer unrhyw un sydd ag anabledd ac unrhyw un dros 60 oed sy'n byw ym Mwrdeistref Caerffili. Mae'r cynllun hefyd yn darparu tocynnau bws cydymaith consesiynol i unrhyw un na allant deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus ar eu pen eu hunan.

Meini prawf cymhwyster a sut i wneud cais:

Pas Bws i bobl dros 60 oed:

<http://www.caerphilly.gov.uk/Services/Transport-and-parking/Bus-pass-for-over-60s?lang=cy-gb>

Pas Bws pobl anabl a thocyn bws cydymaith:

<http://www.caerphilly.gov.uk/Services/Transport-and-parking/Bus-passes?lang=cy-gb>